

## HEATHER SMALL

Ar 20fed Ionawr 1965 y ganed Heather Small, a ddaeth i oed ar stad cyngor yng Ngorllewin Llundain. Yn sgil mynd i'r ysgol Sul ac i'r 'Good News Club', daeth crefydd a ffydd yn agwedd bwysig ar fywyd Heather. Ym Mhrydain y saith degau y daeth Heather i oed, heb fod arni eisiau cael ei stereoteipio na'i thrin yn wahanol, a gwyddai fod arni eisiau gadael ei hôl ar y byd.

Er ei bod yn brwydro yn erbyn swildod ac yn nerfau i gyd, ymunodd â'i band cyntaf Hot!House a ryddhaodd ddau albwm ddiwedd yr wyth degau.

Yn rhan o M People, a hits megis *Moving On Up*, *One Night In Heaven* a *Search For The Hero* ac albymau fel *Elegant Slumming*, *Bizarre Fruit* a *Fresco* yn mynd â hi'n aruthrol drwy'r byd yn grwn, daeth Heather yn un o leisiau arloesol Prydain y naw degau, a'r band yn ennill Gwobr yr Act Ddawns Brydeinig Orau yn y Brits ym 1994 ac ym 1995, yn ogystal â Gwobr Gerdd Mercury am *Elegant Slumming*.

Ers hynny daeth llwyddiant ysgubol i ran Heather yn sgil dau albwm solo - aeth trac teitl ei halbwm *Proud* yn ei flaen i ddod yn drac sain llw o ddigwyddiadau arbennig iawn gan gynnwys cynnig llwyddiannus Llundain am y Gemau Olympaidd yn 2012, trigeinmlwyddiant Diwrnod VE yn Trafalgar Square, lansio Queen Mary 2, Cyngerdd Cymorth y Tswnami, dathliadau buddugoliaeth Lloegr yng Nghwpan Rygbi'r Byd, a'r seremoni swyddogol i nodi trosglwyddo'r Gemau Olympaidd o Beijing i Lundain.

A phan oedd Oprah Winfrey ar drywydd cân i gynhoi'r gwaith y buasai'n ymagnïo i'w gyflawni dros ei gyrfya ugain mlynedd, daeth i gysylltiad â Heather, a lwyddodd rywsut i wneud cyfle i groesi'r lwerydd i berfformio ar y sioe ar ganol ei thaith olaf ym Mhrydain gydag M People ('If Oprah calls, you go!' meddai dan chwerthin, ac wedyn, 'the first lady of chat was very sweet to me.').

Yn 2008, cychwynnodd Heather ar daith a'i gwelai'n ennill serch y bobl dan ddawnsio pan oedd yn gystadleuydd yn Chweched Gyfres *Strictly Come Dancing* y BBC. Bu personoliaeth heintus Heather a'i synnwyr digrifwch nodweddiadol yn gyfrwng ennill iddi ei lle ar nifer o sioeau newyddion a sgwrsio ar y teledu, yn cynnwys Paul O'Grady, Alan Titchmarsh, GMTV, *BBC Breakfast*, *The Wright Stuff*, *Newsnight*, yn ogystal ag ymddangos ar *The Weakest Link* a *Who Wants To Be A Millionaire?*

Roedd 2009 yn flwyddyn brysur eto i Heather a hithau ar daith unwaith eto gyda'i band - dwy daith hynod o lwyddiannus yng ngwledydd Prydain ym misoedd Mai a Thachwedd, yn perfformio mewn dros ddeg ar hugain o oedfannau dan eu sang ledled y gwledydd. Aeth ymlaen â'i gwaith teledu hefyd, mewn hiciau rheolaidd ar sioeau cerddoriaeth, adloniant a gwleidyddiaeth, gan gynnwys *Dancing On Wheels*, sioe oedd yn lled gystadleuaeth dawnsio cadeiriau olwyn a lled raglen ddogfen ar BBC Tri ddechrau 2010.

Yn yr hydref, ymunodd Heather â'r ddau gorwynt o ganwr Anastacia a Lulu yn *Here Come The Girls* – noson fythgofiadwy, yn fawr ei chlod gan y beirniaid, o gerddoriaeth a dawnsio parti oedd yn eli i'r galon, ar daith drwy hyd a lled gwledydd Prydain ac Iwerddon yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2010.

Mae Heather yn bur adnabyddus am ei gwaith elusennol ac yn ddiweddar fe'i gwnaed yn llysgennad yr elusen i blant Barnardo's lle mae'n rhan o'r gwaith codi arian byth a hefyd ac yn cynnig ei chefnogaeth werthfawr i fentrau ledled Prydain.

Beth, felly, sy'n rhoi i Heather yr hwb i ddal i symud yn ei blaen, i ddal i'w herio ei hun, i ddal i roi cynnig ar bethau newydd ac i beidio â gorffwys ar ei bri? 'If you got the feeling I do when I sing,' meddai dan wenu, 'you'd understand.'